**Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** **6 RHAGFYR 2023**

# AGENDA

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr aelodau'n barchus am yr angen i ddatgan unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw eitem i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd gan aelodau.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Derbyn a gwneud penderfyniad ynghylch adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU AT Y RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a gwneud penderfyniad ynghylch adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

**4. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2023/24**

Derbyn adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) a phenderfynu ynghylch penodi archwilwyr y Cyngor.

**5. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL: GRŴP GWEITHREDU DEMENTIA Y RHYL**

Derbyn a phenderfynu ynghylch gwahoddiad (copi ynghlwm) i'r Cyngor benodi cynrychiolydd i fynd i gyfarfod y mudiad uchod.

**6. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS – CAIS I ANNERCH Y CYNGOR TREF**

Penderfynu ar gais gan gynrychiolwy Cyngor Sir Ddinbych i ddod i gyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr i drafod yr ymgynghoriad uchod (copi o'r ohebiaeth ynghlwm).

**7. EITEMAU AELODAU: COELCERTH AC ARDDANGOSFA TÂN GWYLLT Y RHYL**

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE i dynnu sylw'r aelodau at bryderon a fynegwyd ynghylch y digwyddiad blynyddol.

**8. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**9. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL: PRYNU / GOSOD PLAC PORFFOR ER COF AM DOROTHY MILES**

Penderfynu ar gais gan y mudiad Placiau Porffor Cymru / historypoints.org i'r Cyngor Tref ystyried cyllido prynu a gosod Plac Porffor (sy'n cofnodi hanes merched) ar eiddo yn Rhodfa Westbourne, lle magwyd Dorothy Miles, arloesydd Iaith Arwyddion Prydain, bardd a dramodydd, yng nghyfnod ei phlentyndod.

**10. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion a ganlyn (copïau ynghlwm) er gwybodaeth i'r aelodau a chymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir ynddynt:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 10 Gorffennaf 2023 | - Cofnodion rhifau 10 - 14 |
| Yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd | - | 10 Gorffennaf 2023 | - Cofnodion rhifau 1 – 8 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 26 Gorffennaf 2023 | - Cofnodion rhifau 7 - 15 |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 11 Medi 2023 | - Cofnodion rhifau 15 - 20 |

**11. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Derbyn a chadarnhau adroddiad Clerc y Dref yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch cymeradwyo enwebiadau ar gyfer y fraint uchod (copi ynghlwm).

**12. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2024/25 / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Ystyried, diwygio a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (copi ynghlwm) o ran Cyllideb Flynyddol 2024/25 i'w argymell yn ddilynol i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 20 Rhagfyr 2023, ac argymell lefel y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025.

**[Atgoffir yr aelodau fod croeso iddynt ofyn am ragor o wybodeth fanwl am y ffigurau neu'r materion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder gyda Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol/Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol, ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod.]**

**13. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddiweddu'r cyfarfod.